**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 31 GORFFENNAF 2024 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd) trwy MS Teams; Michael Imperato trwy MS Teams; Dianne Bevan trwy MS Teams; Frank Cuthbert.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Pennaeth Polisi a Rhaglenni; Uwch Reolwr Prosiect; Pennaeth Busnes; Rheolwr Cyllid; Rheolwr Arolygon; Swyddog Cymorth Tîm a Swyddog Cymorth Tîm.

**Ymddiheuriadau: Ginger Wiegand; Cynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

**Amser dechrau: 10:14**
**Amser gorffen: 12:02**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn am bresenoldeb rhai o'r Comisiynwyr yng nghyfarfod y Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus. **Nododd** y Cadeirydd fod y sleidiau o'r cyfarfod wedi'u rhannu.

2.2. Trafododd y Cadeirydd y newid sydd ar ddod i Brif Weinidog Cymru a phenodi Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer yr adran sy'n noddi'r Comisiwn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddaredig ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 16 Mehefin 2024 a 23 Gorffennaf 2024.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer Ceredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod copi o'r brydles wedi'i anfon at gyfreithwyr y Comisiwn a bod y swyddfa yn debygol o gael ei symud ym mis Awst. Bu'n rhaid gohirio gosod PSBA er mwyn sefydlu'r trefniadau ar gyfer symud eitemau swyddfa, dogfennau ac ati yn ffisegol. Caiff holl gyfarfodydd y Comisiwn eu cynnal ar-lein hyd nes y clywir yn wahanol. Cafwyd trafodaeth ynghylch y problemau posibl a all gael eu hachosi gan symud, a **nodwyd** yr opsiwn i staff ysgrifenyddol weithio o bell er mwyn lleihau aflonyddwch. **Nodwyd** bod y brydles ar yr adeilad presennol yn dod i ben ddechrau mis Tachwedd.

**4.5.** **(Mater 4) Cytunodd** y Comisiwn i ddarparu sylwebaeth bellach ar y Cynllun Gweithredol, yn ôl y gofyn, a chytundeb i'r Prif Weithredwr drwy'r e-bost.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Nodwyd** y byddai eitemau 5 a 6 yn cael eu trafod gyda'i gilydd.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 23 Gorffennaf 2024 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** bod ymgyrch recriwtio'r Comisiwn wedi cau ar 29 Gorffennaf 2024, a bod y Comisiwn wedi cael cyfanswm o 7 o geisiadau. **Nodwyd** bod un cais wedi dod i law yn y Gymraeg.

**6.3.** **Nodwyd** bod ymarfer recriwtio ar gyfer yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd wedi'i gynnal trwy wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil. Gwnaed hyn drwy gystadleuaeth agored a chafodd y Comisiwn 3 o geisiadau. Mae Roger Ashton-Winter wedi'i benodi i'r rôl ac mae'r trosglwyddiad o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**6.4.** **Nodwyd** bod Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi pasio Cam 3 ar 2 Gorffennaf a Cham 4 ar 9 Gorffennaf 2024. Disgwylir cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst.

**6.5.** **Nodwyd** y cynhaliwyd cyfarfod yn ymwneud â'r Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr a chadarnhawyd ar lafar y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn gyfrifol am ei gyflwyno. Cafwyd trafodaeth bellach am y Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr, gan gynnwys yr heriau, materion a'r risgiau posibl. **Trafodwyd** a **nodwyd** pryderon yn ymwneud ag amserlenni, adnoddau, capasiti a sgiliau. Cafwyd trafodaeth ynghylch cyllidebu a materion posibl yn ymwneud â chaffael.

**6.6.** Cafwyd trafodaeth ynghylch trosglwyddo'r IRP i CDFfC a'r materion posibl.

**Gweithredu:** Gwahodd cydweithwyr o Lywodraeth Cymru i gyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol i drafod y pryderon uchod ynghylch y Porth Gwybodaeth i Bleidleiswyr.

**Gweithredu**: Adroddiad gwaddol ar gyfer IRP i'w drafod yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 31 Gorffennaf 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn dangos sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin 2024.

**7.2.** **Nodwyd** y tanwariant mwyaf arwyddocaol ac esboniadau ohonynt, yn enwedig y tanwariant mewn costau staff. **Nodwyd** y bydd y tanwariant hwn mewn costau staff yn lleihau gan fod yr aelod staff ar secondiad wedi dychwelyd o Lywodraeth Cymru.

**7.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch y codiad cyflog posibl sydd ar ddod. **Nodwyd** bod y codiad cyflog posibl wedi cynyddu o 3.7% i 5.5%. Mae'r Comisiwn yn disgwyl gallu bodloni'r codiad cyflog hwn a **nodwyd** bod yr adran noddi wedi cynnig cymorth pe byddai hyn yn newid.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC dyddiedig 31 Gorffennaf 2024 a **chytunwyd** ar yr adroddiad yn amodol ar ddiwygiadau.

**8.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch risg CR3 'Mae adleoli'r Comisiwn o Dŷ Hastings i Barc Cathays wedi'i ohirio gan LlC'. **Cytunwyd**, wedi i'r Comisiwn gael cadarnhad bod y cyfreithwyr wedi cael y brydles, y caiff risg CR3 ei lleihau i 3.

**Gweithredu**: Lleihau risg CR3 i 3 wedi i'r Comisiwn gael cadarnhad gan gyfreithwyr y derbyniwyd y brydles.

## 9. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC dyddiedig 31 Gorffennaf 2024.

**9.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch ychwanegu risg at Gofrestr Risg y Flaenraglen Waith yn ymwneud â'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. **Cytunwyd** y byddai risg newydd yn cael ei hychwanegu yn ymwneud â'r Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr.

**Gweithredu**: Y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid i drafod y risg ychwanegol yn ymwneud â'r Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr.

## 10. Cyfrifon Blynyddol 2023-24 – Effaith Safonau Cyfrifo nad ydynt ar Waith Hyd yn Hyn

**10.1.** Ystyriwyd Adroddiad Cyfrifon Blynyddol 2023-24 Effaith Safonau Cyfrifo nad ydynt ar Waith Hyd yn Hyn, dyddiedig 31 Gorffennaf 2024 gan y Rheolwr Cyllid.

**10.2.** **Nodwyd** nad yw'r Safonau Cyfrifo hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar hyn o bryd.

## 11. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023-24

**11.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023-24 dyddiedig 31 Gorffennaf 2024 gan y Rheolwr Cyllid.

**11.2.** Penderfynwyd **cymeradwyo'r** cynnwys ar ddechrau'r adroddiad yn amodol ar ddiwygiadau.

**11.3.** **Nodwyd** bod yr adroddiad llywodraethu eisoes wedi'i gymeradwyo.

**11.4.** **Nodwyd** bod yr archwiliad o'r cyfrifon blynyddol ar fin dod i ben a bod aelodau o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn bwriadu cyfarfod â'r archwilwyr yfory.

**11.5.** **Nodwyd** bod gan y Comisiwn £12,000 yn weddill yn ei gyfrif ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Gweithredu**: Y Rheolwr Cyllid a'r Prif Weithredwr i wneud newidiadau i'r Adroddiad.

## 12. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 24 Gorffennaf 2024.

**12.2.** **Nodwyd** y bydd Adroddiad Argymhellion Terfynol Ceredigion yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

**12.3.** **Nodwyd** y bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer Adroddiad Cynigion Drafft Abertawe yn dod i ben ar 10 Gorffennaf 2024.

**12.4.** Nodwyd bod Arolwg y Senedd wedi lansio ar 18 Gorffennaf a bod y canllaw wedi'i gyhoeddi ar 19 Gorffennaf.

## 13. Arolwg Cymunedol Ceredigion – Adroddiad Terfynol

**13.1.** **Nodwyd** y bydd Adroddiad Argymhellion Terfynol Ceredigion yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Medi.

## 14. Arolwg Cymunedol Abertawe – Opsiynau Terfynol

**14.1.** Ystyriwyd papur Arolwg Cymunedol Abertawe – Opsiynau Terfynol dyddiedig 23 Gorffennaf 2024 gan y Swyddog Arolygon.

**14.2.** **Nodwyd** bod 64 o gynrychiolaethau wedi dod i law yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Drafft; sef 24 o lythyrau fel rhan o ymgyrch ysgrifennu llythyrau, deiseb â 335 o lofnodion a chyflwynwyd 55 o holiaduron. **Nodwyd** nad oedd Cyngor Abertawe wedi cyflwyno cynrychiolaeth yn rhoi adborth ar y Cynigion Drafft.

**14.3.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Mawr, Clydach a Gellifedw. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.4.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Mawr a Phontarddulais. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.5.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Mawr a Llangyfelach. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.6.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ilston a Phennard. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.7.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llangynydd, Llanmadog a Cheriton a Llanrhidian Isaf. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.8.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Port Eynon, Pen-rhys, Rhosili a Reynoldston. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.9.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Gorseinon a Phengelli a Waungron. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.10.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Dyfnant a Chilâ. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.11.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llandeilo Ferwallt. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.12.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Bôn-y-maen. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.13.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cocyd. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.14.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cwmbwrla. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.15.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Tregŵyr. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.16.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Glandŵr. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.17.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanrhidian Uchaf. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.18.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llansamlet. Dewisodd y Comisiwn **Opswn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.19.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llwchwr. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.20.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Treforys. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.21.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Y Mwmbwls. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.22.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Mynydd-bach. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.23.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Penderi. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.24.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Penlle'r-gaer. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.25.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Pont-lliw a Thir-coed. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.26.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Sgeti. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.27.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol St Thomas. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.28.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Y Crwys. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.29.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Townhill. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.30.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Uplands. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.31.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cilâ Uchaf. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.32.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Waunarlwydd. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o blith y cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**14.33.** Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag enwau a chafwyd cynrychiolaethau yn ymwneud ag enwau Cymraeg. Cytunodd y Comisiwn i argymell enwau unigol gan ddefnyddio'r sillafiad Cymraeg lle'r oedd ond llythyren neu gysylltnod yn wahanol rhwng yr enwau yn y ddwy iaith.

**15. Calendr Digwyddiadau**

**15.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**16. Unrhyw fater perthnasol arall**

**18.1** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 28 Awst 2024